EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH

Cynhaliwyd Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch yn Neuadd y Pentref, dydd Sadwrn 27 Ionawr. Cafwyd dau gyfarfod llewyrchus a nifer dda o gystadleuwyr. Braf oedd cael cefnogaeth cystadleuwyr lleol gan gynnwys Ysgol Garndolbenmaen yn ogystal â rhai o'r tu allan i'r ardal.

Y beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant – Iwan Wyn Williams, Llandwrog; Adrodd/Llefaru– Bethan Elin, Ynys Mon; Llên a Barddoniaeth – Bethan Dobson; Arlunio – Eirian, Pwlldefaid. Y cyfeilydd oedd Tudur P. Jones, Tywyn, Meirionnydd. Yr arweinyddion oedd Nesta Jones, Nia Mai Evans a Bethan Dobson.

Swyddogion y pwyllgor yw: Llywydd – Gwen Owen; Is-lywydd – Nerys Ll. Thomas; Ysgrifennydd – Esyllt Williams; Is-ysgrifennydd – Bethan Dobson; Trysorydd – Richard Parry; Is-drysorydd – Carolyn Jones.

Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd John Eifion, Penisarwaen. Mae John Eifion yn enedigol o Hendre Cennin, ac Eisteddfod Garndolbenmaen wedi bod yn ran o'i fywyd ers erioed, gyda'i rieni yn ran o'r criw oedd yn trefnu yr eisteddfod o'r cychwyn. Bu John Eifion yn cystadlu ers yn ifanc, a'r eisteddfod leol wedi chwarae rhan bwysig yn ei fywyd. Mae cyswllt John Eifion wedi parhau gyda'r traddodiad eisteddfodol, gan ei fod erbyn hyn yn drefnydd yr Wyl Gerdd Dant, ac hefyd yn arwain Côr y Brythoniaid. Pleser oedd ei groesawu yn ôl i Eisteddfod Garndolbenmaen.

Braf hefyd oedd cael parti canu o Ysgol Garndolbenmaen yn cystadlu, dan hyfforddiant Mrs. Gwenan Roberts, a diolch iddi am ei gwaith.

Enillwyd y wobr arbennig o £25 am yr adroddiad gorau yng nghyfarfod y prynhawn gan Miriam Thomas o Chwilog. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan Gôr Meibion Dwyfor am y datganiad gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod y prynhawn gan Lea Roberts, Pwllheli. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan O. Gerallt Jones ac Alun Llwyd am y datganiad gorau yn adran cerdd dant y prynhawn er cof am eu rhieni, Vera a D. G. Jones (Selyf) gan Cadi Midwood, Morfa Nefyn.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd seremoni Tlws yr Ifanc yn y cyfarfod hwyr. Dyluniwyd y tlws gan John Parry, Penrhyndeudraeth, a diolch iddo yntau am ei waith cain. Enillydd y tlws oedd Elin Mair Jones, o Sarn Mellteyrn, sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli. Roedd 18 wedi ymgeisio a derbyniodd Elin ganmoliaeth arbennig gan y beirniad am safon uchel ei gwaith. Roedd Tlws yr Ifanc a Thocyn Llyfr yn rhoddedig gan Mr E. Griffiths a'r diweddar Mrs. G Griffiths, Ynys Wen, Cwmystradllyn a Chwmni Peirianneg Sifil Gelli er cof am Tom Richards, Wern, Llanfrothen. Diolchir iddynt ac i bawb a gyfrannodd wobrau ac a gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.

Cafwyd cyfarfod yr hwyr arbennig iawn, gyda nifer o unigolion yn cymeryd rhan, diolch iddynt am eu cefnogaeth i'r eisteddfod.

Canlyniadau Eisteddfod Garndolbenmaen 2024

Cerddoriaeth

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Nansi Gwen, Golan, 2 Esmi Williams , Llanystumdwy

Blwyddyn 1 - 2: 1. Henry Jones, Waenfawr; 2 Sam Bathgate, Pentrefelin

Blwyddyn 3 - 4: 1. Miriam Thomas, Chwilog; 2. Cadi Jones, Golan; 3. Annes Euros, Llangybi

Blwyddyn 5 - 6: 1. Eiry Glain, Golan; 2. Erain Jên, Tremadog

Blwyddyn 7 – 11: 1. Cadi Midwood, Morfa Nefyn

Deuawd dan 16 oed: 1. Cadi ac Ifan Midwood, Morfa Nefyn

Can Werin dan 16 oed: 1. Cadi Midwood, Morfa Nefyn; 2. Miriam Thomas, Chwilog; 3. Annes Euros, Llangybi

Unawd Piano dan 12 oed: 1. Gwern Pugh, Tremadog; 2. Hywyn Euros, Llangybi; 3. Dafydd Ahronson

Parti Unsain dan 12 oed: Parti Ysgol Garndolbenmaen

Unawd Offeryn Cerdd dan 16 oed: 1. Lea Roberts, Pwllheli ; 2. Gwern Pugh, Tremadog ac Efan Thomas, Chwilog; 3. Annes Euros, Llangybi

****

Unwad dan 25: Beca Williams, Penrhyncoch; 2. Twm Tudor, Ynys Mon

Unawd o Sioe Gerdd: 1. Beca Williams, Penrhyncoch

Cân Werin dros 16: 1. Beca Williams, Penrhyncoch; 2. Robat John, Beaumaris; 3. Twm Tudor, Ynys Mon

Unawd Gymraeg o waith Cyfansoddwr Cymreig: 1. Beca Williams, Penrhyncoch ; 2. Treflyn Jones, Porthmadog; 3. Rhys Roberts, Y Ffôr; 4. Aled Jones, Comins Coch

Her-unawd : 1. Twm Tudor, Ynys Mon; 2. Treflyn Jones, Porthmadog; Rhys Roberts, Y Ffôr; Elfed Wyn ap Elwyn, Trawsfynydd

Canu Emyn dros 50 oed: Aled Jones, Comins Coch

Côr Meibion, Merched neu Gymysg:

Deuawd dros 16 oed:

Cerdd Dant

Unawd dan 12: 1. Cadi Jones, Golan, 2. Miriam Thomas, Chwilog 3. Annes Euros, Chwilog

Unawd 12 – 16: 1. Cadi Midwood, Morfa Nefyn

Unwad Cerdd Dant dros 16 oed : Beca Williams, Penrhyncoch

<u>Adrodd / Llefaru</u>

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Nansi Gwen, Golan; 2. Esmi Williams, Llanystumdwy

Blwyddyn 1 - 2: 1. Henry Jones, Waenfawr; 2 Sam Bathgate, Pentrefelin

Blwyddyn 3 - 4: 1. Miriam Thomas, Chwilog; 2. Annes Euros, Llangybi; 3. Eiri Bathgate, Pentrefelin

Blwyddyn 5 - 6: 1. Gwenith Hughes, Chwilog; 2. Gwern Pugh, Tremadog ; 3. Erain Jên, Tremadog

Blwyddyn 7 – 11: 1. Lea Roberts, Pwllheli; 2. Beca Dwyryd, Porthmadog; 3. Ifan Midwood, Morfa Nefyn

Parti Llefaru:

****

Perfformio Darn Digrif Agored: 1. Rhys Jones, Corwen

Mewn Cymeriad:

Prif Adroddiad: 1. Rhys Jones, Corwen

Llenyddiaeth

Meithrin a Derbyn: 1. Nansi Gwen, Golan

Blwyddyn 1 – 2: 1. Henry Jones, Waenfawr

Blwyddyn 3 – 4 1. Annes Euros, Llangybi

Blwyddyn 5 – 6 :

Blwyddyn 7 – 11: 1. Lea Roberts, Pwllheli; 2. Hywyn Euros, Llangybi; 3. Begw Llŷr Williams, Ysgol Botwnnog

Englyn:1. John Ffrancon Griffith, Abergele

Telyneg:1. Megan Richards, Aberaeron

Llinell Goll: 1. Llifon Jones, Gaerwen

Dan 25 oed 'Tlws yr Ifanc': 1. Elin Mair Jones (Coleg Meirion Dwyfor)

Arlunio

Meithrin a Dan 5: 1. Olivia Pugh, Ysgol Garndolbenmaen; 2. Nansi Gwen, Golan

Blwyddyn 1 – 2: 1. Henry Jones, Waenfawr ; 2. Elin, Ysgol Garndolbenmaen; 3. Leia, Ysgol Garndolbenmaen

Blwyddyn 3 – 4: 1. Eiri Bathgate, Pentrefelin; 2. Annes Euros, Llangybi; 3. Gwen Eluned Harris, Penrhyndeudraeth

Blwyddyn 5 – 6: 1. Caio, Ysgol Garndolbenmaen; 2. Aron, Ysgol Garndolbenmaen; 3. Eiry Glain Williams, Golan

Blwyddyn 7 – 9: 1. Hywyn Euros, Llangybi; 2. Ifan Midwood, Morfa Nefyn